# Cyngor Cymuned Mawddwy

**Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.**
☏ **01650 531 405**
**E bost: *Cyngormawddwy@outlook.com***

17eg Awst 2025

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR **CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED MAWDDWY *Nos Fercher y 27ain o Awst am 8.00pm yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.***

**Nodyn ar gyfer y cyhoedd.** Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

**CLERC**

…………………………………………………………………………………………

## AGENDA

1.Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3.Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed Gorffennaf 2025 – gweler yn atodol.

4**. Materion yn codi,**

a) Materion Llwybrau, Priffyrdd a Chefnffyrdd.

b) Dyfodol Eglwys Llanymawddwy -derbyn y diweddaraf.

c) Pwyllgor yr Hen Fynwent – derbyn y diweddaraf.

d) Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas – derbyn y diweddaraf.

e) Torri gwair mynwentydd – nodi fy e-bost i Gynghorwyr dyddiedig 17.07.25

f) Safle y gofgolofn yn Minllyn.

g) Cynllun 'Gwynedd Ni' – cronfa Cynghorau tref/Cymuned - ystyried y diweddaraf yn dilyn cyfarfod arbennig ar yr 19eg o Fehefin, y penderfyniad yn y cyfarfod diwethaf 9.07.25, a e-bost pellach i bawb 29.07.25 yng nghyswllt cynnig ychwanegol o £2500, a'r cynnig ffurfiol a ddanfonwyd i'r Cynghorwyr 15.08.25

h) Cais i gladdu llwch yn yr hen fynwent yn Mallwyd (mynwent yr Eglwys)

i) Cwynion am sefyllfa carafannau Min y Goedwig, Aberangell.

**5. Materion Cynllunio**

6.**Materion Cyllid.**

a) Cyfrifon banc – nodi balansau.

b) Anfonebau i'w talu

- A Johnson – torri gwair mynwentydd (ail dro)
- Anfoneb Archwilio mewnol Cyngor Gwynedd am 2024/25

c) Ceisiadau am arian.

- Cerebral Palsy Cymru

**7.Gohebiaeth**

**a)** Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru

***b)*** Cyngor Gwynedd – gwyriad llwybr cyhoeddus Rhif 25 yng Nghymuned Aberangell *(wedi ei ddanfon allan i'r Cynghorwyr)*

**c)** Gohebiaeth parthed beddi milwyr yn hen fynwent Dinas Mawddwy (Commonwealth War graves)

**d)** Prosiect Dawns Dolgellau – *wedi ei rannu i'r Cynghorwyr*

8. **Unrhyw fater arall**